| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **11 MEDI 2017** |
| **TEITL:** | **ADOLYGIAD O'R DATGANIAD POLISI HAPCHWARAE** |
| **DIBEN:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH YR ADRAN AMGYLCHEDD** |

## 1. PWRPAS

1.1 Diben yr adroddiad hwn yw cyflwyno Datganiad Polisi Hapchwarae drafft i gael ei ystyried a'i gymeradwyo yn dilyn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus yn unol â Deddf Hapchwarae 2005. (Atodiad 1)

1.2 Fe gofiwch i'r Pwyllgor hwn yn ei gyfarfod ar y 6ed o Fawrth 2017 gymeradwyo'r polisi draft ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.

1.3 Yn ystod y cyfarfod , fe gafwyd trafodaeth ynglyn a chynnwys y polisi draft. Fe ddatganwyd pryderon gan amryw o aelodau am amlder hysbysebion hapchware sydd yn ymddangos ar sianeli teledu a'r rhyngrwyd , yn enwedig sianeli tansgrifiad ar gyfer chwaraeon. Cytunwyd y byddai'r swyddog trwyddedu yn cyfleu sylwadau y Pwyllgor i'r Comisiwn Hapchware, sydd yn gyfrifol am reoleiddio hysbysebion am hapchware. Atodir gopi o'r llythyr aeth i'r Comisiwn er eich gwybodaeth ( Atodiad 2)

## 2. CANLYNIAD YR YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS

2.1 At ddibenion Deddf Hapchwarae 2005 (y Ddeddf), mae Cyngor Gwynedd yn cael ei gyfrif yn Awdurdod Trwyddedu ac mae'n gyfrifol am roi a rheoleiddio trwyddedau eiddo, gan gynnwys eiddo sy'n darparu bingo, swyddfeydd betio, arcedau diddanu ac ati.
Mae'r Awdurdod hefyd yn gyfrifol am gofrestru loterïau bychain ac am roi hawlenni peiriannau hapchwarae i dafarndai.

2.2 Nid yw pob math o hapchwarae yn cael ei reoleiddio gan Awdurdodau Lleol; er enghraifft, mae'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol (FSA) a Chomisiwn y Loteri Genedlaethol yn parhau i reoleiddio betio gwasgar yn ogystal â'r Loteri Genedlaethol.

2.3 Y Comisiwn Hapchwarae sy'n gyfrifol am roi trwyddedau gweithredu a phersonol i hapchwarae masnachol (megis casinos a neuaddau bingo) ac i bobl sy'n gweithio yn y diwydiant.

2.4 Mae tri amcan trwyddedu i'r Ddeddf, a'r rhain sy'n ffurfio sylfaen swyddogaethau'r Awdurdod Trwyddedu. Y rhain yw -

- Atal Hapchwarae rhag bod yn ffynhonnell Trosedd ac Anhrefn, rhag bod yn gysylltiedig â throsedd neu anhrefn, neu rhag cael ei ddefnyddio i gefnogi trosedd;

- Sicrhau bod Hapchwarae'n cael ei gynnal mewn ffordd Deg ac Agored
- Amddiffyn plant a phobl fregus eraill rhag cael eu niweidio neu eu hecsbloetio gan hapchwarae.

2.5 Mae Adran 349 y Ddeddf yn gofyn i Awdurdodau Trwyddedu, bob tair blynedd, baratoi a chyhoeddi datganiad o egwyddorion Trwyddedu y maen nhw'n dymuno eu rhoi ar waith wrth ymgymryd â'u swyddogaethau yn unol â'r Ddeddf.

2.6 Fe gynhaliwyd ymgynghoriad am gyfnod o 12 wythnos hyd at gannol mis Gorffennaf – ac ni dderbyniwyd unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriad.

2.7

## 3. **GWEITHDREFN MABWYSIADU**

3.1 Gan nad oes sylwadau wedi eu derbyn i'r ymgynghoriad ar y polisi draft gofynnir i'r Pwyllgor hwn gymeradwyo'r polisi yn ei ffurf presenol.

3.3 Unwaith bydd y Pwyllgor Trwyddedu'n cytuno ar fersiwn terfynol o'r Datganiad Polisi Hapchwarae, mae Adran 154 y Ddeddf yn datgan bod rhaid i'r polisi gael ei fabwysiadu gan y Cyngor llawn.

## 4. **ARGYMHELLIAD**

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y Datganiad Polisi Hapchwarae drafft yn unol â Deddf Hapchwarae 2005 gan ei gymeradwyo ar gyfer ei fabwysiadu.